Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 ar reolaethau swyddogol i wirio cydymffurfiad â chyfraith porthiant a bwyd, a rheolau iechyd a lles anifeiliaid

Nodiadau Cwestiwn ac Ateb i awdurdodau gorfodi ar yr elfennau porthiant a bwyd

(Diwygiad 2, Chwefror 2008)

CYNNWYS

	Tudalen
Cyflwyniad	**5**
Gwybodaeth Gyffredinol	**5**
C1. Beth y mae Rheoliad 882/2004 yn ymdrin ag ef?	5
C2. Pam cafodd y Rheoliad ei gyflwyno?	6
C3. Beth yw nodau ac amcanion y Rheoliad?	6
C4 Beth yw 'awdurdodau cymwys?	6
C5. Pwy yw'r awdurdodau cymwys yn y DU?	6
C6. Beth yw'r rheolaethau swyddogol?	6
C7 Pa gyfraith porthiant sydd wedi ei chynnwys yn y Rheoliad?	7
C8. Pa gyfraith fwyd sydd wedi ei chynnwys yn y Rheoliad?	7
C9. Beth yw cwmpas y Rheoliad o ran yr elfennau porthiant a bwyd?	7
C10. Beth yw prif elfennau'r Rheoliad?	7
C11. Pryd oedd darpariaethau'r Rheoliad yn berthnasol?	8
Egwyddorion cyffredinol ar gyfer trefniadau rheoli swyddogol yn yr Aelod-wladwriaethau	**8**
C12. Beth yw'r egwyddorion hyn?	8
Gofynion ar gyfer yr awdurdodau cymwys	**8**
C13. Beth yw'r gofynion hyn?	8
C14. Ydy hyn wedi golygu unrhyw newidiadau i'r trefniadau monitro a gorfodi yn y DU mewn perthynas â bwyd?	9
C15. A yw hyn wedi golygu unrhyw newidiadau i'r trefniadau monitro a gorfodi yn y DU mewn perthynas â porthiant?	9
C16. Beth mae'r gofynion archwilio'n ei olygu i awdurdodau cymwys yn y DU?	9
C17. Beth yw 'corff rheoli'?	9
C18. A oes unrhyw gyrff rheoli yn y DU?	10
C19. Pa fath o dasgau allai gael eu dirprwyo?	10
C20. Beth yw'r amodau penodol ar gyfer dirprwyo tasgau?	10
C21. Sut mae'r gofynion archwilio/arolygu ar gyfer cyrff rheoli'r DU yn cael eu bodloni?	10
C22. Beth yw'r gofynion ar dryloywder?	10
C23. Sut mae'r rhwymedigaeth hon ar gyfer awdurdodau cymwys yn cael ei bodloni yn y DU?	11
C24. A oes angen cyhoeddi adroddiadau arolygiadau unigol?	11
C25 Sut mae cydlynu effeithiol ac effeithlon rhwng awdurdodau'n cael ei sicrhau yn y DU?	11
C26. Beth yw'r gofynion yn ymwneud â chofrestru a chymeradwyaeth?	12
C27. Beth yw'r cyfrifoldebau yn ymwneud â chofrestru?	12
C28. Beth yw'r cyfrifoldebau yn ymwneud â chymeradwyo?	12
C29. A yw'r rhestrau o sefydliadau cofrestredig a chymeradwy'n cael eu cyhoeddi ac, os felly, pwy sy'n cyhoeddi'r rhestr?	13
Gofynion ar gyfer samplu a dadansoddi ac ar gyfer labordai swyddogol	**13**
C30. Beth yw'r gofynion ar gyfer samplu a dadansoddi?	13
C31. Beth yw labordai swyddogol?	13
C32. Beth yw'r gofynion ar gyfer labordai swyddogol?	13
C33. Pa labordai yn y DU sy'n labordai swyddogol?	14
Rheolaethau swyddogol mewnforion porthiant a bwyd o'r tu allan i'r UE (h.y. o drydydd gwledydd)	**14**
C34. Beth yw'r trefniadau ar gyfer gwirio porthiant a chynnyrch bwyd sy'n dod o	

anifeiliaid (POAO)? 14
C35. Pwy sy'n gyfrifol am gynnal y gwiriadau hyn? 14
C36. A oes angen unrhyw wiriadau eraill ar POAO? 14

C37. Beth yw'r trefniadau ar gyfer gwirio porthiant a chynnyrch bwyd nad ydynt yn dod o anifeiliaid (nad ydynt yn POAO)? 15
C38. Beth yw'r trefniadau ar gyfer rheolaethau porthiant a bwyd nad ydynt yn POAO a bwyd sy'n dod o wledydd a ymunodd â'r UE ym Mai 2004? 15
C39. Beth yw'r fframwaith ar gyfer gwiriadau ar elfennau 'risg uchel' nad ydynt yn POAO? 15
C40. Pwy sy'n gyfrifol am gynnal gwiriadau ar elfennau nad ydynt yn POAO? 15
C41. Beth yw porthiant a bwyd 'risg uchel' nad ydynt yn POAO? 16
C42. Sut bydd porthladdoedd yn cael eu dylunio ar gyfer mewnforio porthiant a bwyd 'risg uchel' nad ydynt yn POAO? 16
C43. Pa lefel o wiriadau bydd y cynnyrch hyn yn eu cael? 16
C44. Pryd fydd y rhestr o gynnyrch 'risg uchel' yn cael ei llunio? 16
C45. Pa bwerau gorfodi fydd gan awdurdodau lleol a chynghorau dosbarth yn ymwneud â darpariaethau mewnforio newydd ar gyfer mewnforion nad ydynt yn POAO? 16

Ariannu rheolaethau swyddogol 17
C46. Beth yw'r gofynion ar gyfer ariannu rheolaethau? 17
C47. Ym mha sectorau y mae porthiant yn orfodol? 17
C48. Sut mae ffioedd yn cael eu cyfrifo? 17
C49. Beth yw 'rheolaethau swyddogol ychwanegol'? 17
C50. A oes ffioedd ar gyfer gwiriadau mewnforion o drydydd gwledydd nad ydynt yn POAO? 18
C51. A yw'r darpariaethau hyn wedi arwain at newidiadau mewn trefniadau ariannu yn y DU? 18

Cymorth gweinyddol a chydweithredu gydag Aelod-wladwriaethau eraill a chyda'r Comisiwn 18
C52. Pa drefniadau sydd yno ar gyfer cysylltu â'r awdurdodau cymwys mewn Aelod-wladwriaethau eraill a chyda'r Comisiwn? 18
C53. Beth yw rôl y 'corff cyswllt' a pha gorff sy'n cyflawni'r swyddogaeth hon yn y DU? 18
C54. A yw awdurdodau cymwys Aelod-wladwriaethau eraill yn gallu ymgymryd ag ymchwiliadau yn y DU neu gymryd camau yn erbyn busnesau'r DU? 19

Cynlluniau Rheolaeth Genedlaethol ac adroddiadau blynyddol i'r Comisiwn 20
C55. Beth yw'r gofynion ar gyfer cynlluniau ac adroddiadau rheolaeth? 20
C56. Pwy sy'n gyfrifol am baratoi cynlluniau ac adroddiadau'r DU a phwy sy'n cyfrannu at y rhain? 20
C57. Pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn y cynllun a'r adroddiadau blynyddol? 20
C58. A yw cynllun y DU wedi cael ei gyhoeddi? 20

Rheolaethau cymunedol yn yr Aelod-wladwriaethau ac mewn trydydd gwledydd 21
C59. Sut bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn sicrhau bod trefniadau monitro a gorfodi cenedlaethol yr Aelod-wladwriaethau yn effeithiol? 21
C60. Beth yw'r trefniadau ar gyfer gorchwylion/archwiliadau'r Swyddfa Bwyd a Milfeddygaeth (FVO)? 21
C61. Beth am asesiad trydydd gwledydd sy'n allforio i'r UE? 21
C62. A yw'r Comisiwn yn llunio rhestrau o wledydd cymeradwy a sefydliadau cymeradwy? 21

Effaith ar fusnesau 21

C63. A oes unrhyw ofynion ar gyfer busnesau yn y Rheoliad? 21
C64. A yw'r Rheoliad yn rhoi unrhyw fudd i fusnesau? 22
Effaith ar Ddefnyddwyr 22
C65. A yw'r rheolau o unrhyw fudd i ddefnyddwyr? 22
Mwy o wybodaeth 22
C66. Pwy ddylwn i gysylltu â nhw os oes gennyf unrhyw ymholiadau? 22
Atodiad – Cyfarwyddiadau gorfodi 23

Nodyn pwysig

Nod y Nodiadau Holi ac Ateb hyn yw esbonio gofynion ***Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 ar reolaethau swyddogol i wirio cydymffurfiad â chyfraith porthiant a bwyd, a rheolau lles anifeiliaid*** ac i roi cyngor anstatudol, anffurfiol. Ni ddylid eu cymryd fel datganiad awdurdodol na dehongliad o'r Rheoliad gan mai'r llysoedd yn unig sydd â'r pŵer hwn. Dylid darllen y Nodiadau Holi ac Ateb ar y cyd â Rheoliad yr UE[1] a, lle y bo'n briodol, gyda chyfarwyddiadau gorfodi neu weithredol eraill (gweler yr Atodiad).

Cyflwyniad

Nod y Nodiadau Holi ac Ateb hyn yw cynnwys prif elfennau Rheoliad 882/2004. Mae testun y Rheoliad ar gael ar wefan y Comisiwn Ewropeaidd yn:

http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/site/en/consleg/2004/R/02004R0882-20060525-en.pdf

Mae cwmpas y Nodiadau yn gyfyngedig i'r agweddau hynny o'r Rheoliad sy'n ymwneud â rheolaethau swyddogol yn ymwneud â **porthiant** a **bwyd**. **Nid** ydynt yn ymwneud ag elfennau **iechyd anifeiliaid** a **lles anifeiliaid** y Rheoliad, y mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a'r Adrannau Amaethyddiaeth/Materion Gwledig yn y gweinyddiaethau datganoledig yn gyfrifol amdanynt.

Gan fod y Rheoliad yn rhoi rhwymedigaethau ar yr awdurdodau hynny sy'n gyfrifol am fonitro a gorfodi cyfraith porthiant a bwyd, mae'r Nodiadau Holi ac Ateb wedi eu hanelu'n bennaf at yr awdurdodau hyn. Fodd bynnag, gall y Nodiadau hefyd ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol i'r diwydiannau porthiant a bwyd, ac i ddefnyddwyr.

Cyhoeddir y Nodiadau ar borth gorfodi gwefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a chânt eu diweddaru fel y bo angen i adlewyrchu unrhyw adborth a dderbynnir.

Gwybodaeth gyffredinol

C1. Beth y mae Rheoliad 882/2004 yn ymdrin ag ef?

A1. Mae'n ymwneud â threfniadau ar gyfer monitro a gorfodi gofynion cyfraith porthiant a bwyd (yn ogystal â rheolau iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid). Mae'n nodi'r ymagwedd gyffredinol y mae'n rhaid ei chymryd, a'r egwyddorion y mae'n rhaid eu mabwysiadu, gan yr awdurdodau mewn Aelod-wladwriaethau'r UE sy'n gyfrifol am fonitro a gorfodi cyfraith porthiant a bwyd h.y. ar gyfer yr 'awdurdodau cymwys' (gweler C4 a C5) sy'n trefnu ac yn ymgymryd â 'rheolaethau swyddogol' (gweler C6). Mae hefyd yn darparu'r sylfaen gyfreithiol i'r Comisiwn Ewropeaidd asesu effeithiolrwydd trefniadau cenedlaethol ar gyfer rheolaethau swyddogol.

[1] Cyfnodolyn Swyddogol L191, 28.5.2004, 1-52.

C2. Pam cafodd y Rheoliad ei gyflwyno?

A2. Cafodd ei gyflwyno i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r Comisiwn Ewropeaidd bod amrywiad eang yn y ffordd yr oedd deddfwriaeth Gymunedol yn cael ei gweithredu a'u gorfodi yn yr Aelod-wladwriaethau gwahanol. Roedd ei angen hefyd i gydgrynhoi ac ymestyn gofynion a nodir mewn deddfwriaeth sector-benodol bresennol yr UE er mwyn dileu anghysonderau ac i lenwi bylchau.

C3. Beth yw nodau ac amcanion y Rheoliad?

A3. Y nod yw creu ymagwedd 'o'r pridd i'r plât' sy'n fwy cynhwysfawr ac integredig, sy'n seiliedig ar risg, ar draws yr UE tuag at reolaethau swyddogol. Yr amcan yw gwella cysondeb ac effeithiolrwydd rheolaethau ar draws yr UE ac, o ganlyniad, codi safonau diogelwch bwyd a diogelu'r defnyddiwr. Ei nod hefyd yn rhoi mwy o dryloywder i ddefnyddwyr am drefniadau rheoli a gorfodi swyddogol.

C4. Beth yw 'awdurdodau cymwys'?

A4. Diffinnir 'awdurdodau cymwys' yn benodol at ddibenion y Rheoliad yn Erthygl 2(4). Mewn gwirionedd, awdurdod neu awdurdodau canolog Aelod-wladwriaeth yw'r rhain sy'n gyfrifol am drefniadau rheoli a gorfodi swyddogol cenedlaethol yn ogystal ag awdurdodau eraill sy'n gyfrifol am fonitro a gorfodi'r gyfraith (h.y. cynnal rheolaethau swyddogol).

C5. Pwy yw'r awdurdodau cymwys yn y DU?

A5. Mae'r cyfrifoldeb am reolaethau porthiant a bwyd yn un canolog. Yn ymarferol, rhennir y broses o gyflawni'r cyfrifoldeb rhwng awdurdodau canolog a lleol. Yr awdurdodau canolog yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd, Defra a'r Adrannau Amaethyddiaeth/Materion Gwledig[2] datganoledig a'u hasiantaethau (e.e. y Gwasanaeth Hylendid Cig, y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol, y Gyfarwyddiaeth Diogelwch Plaladdwyr, ac Iechyd Anifeiliaid (Hylendid Llaeth). Ar y lefel leol, ym Mhrydain Fawr, gwneir llawer o'r gorfodi o ran cyfraith porthiant a bwyd gan y Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach mewn awdurdodau lleol. Mae hyn yn cynnwys awdurdodau iechyd porthladdoedd sydd â chyfrifoldebau penodol mewn perthynas â rheolaethau mewnforio. Yn yr un modd, yng Ngogledd Iwerddon, cynghorau dosbarth sy'n gyfrifol am orfodi'r gyfraith, er bod cyfraith porthiant yn cael ei gorfodi gan Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Gogledd Iwerddon (DARD).

C6. Beth yw rheolaethau swyddogol?

A6. Diffinnir 'rheolaethau swyddogol' yn benodol at ddibenion y Rheoliad yn Erthygl 2(1). I bob diben, maent fel a ganlyn:

- Gwiriadau rheoleiddio a gynhelir gan yr awdurdodau cymwys yn yr Aelod-wladwriaethau i fonitro bod busnesau porthiant a bwyd yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y 'gyfraith porthiant' a'r 'gyfraith fwyd'. Mae gwiriadau o'r fath yn cynnwys, er enghraifft, arolygiadau, archwiliadau, goruchwylio, samplu a dadansoddi ac ati.
- Gwiriadau a gynhelir gan Wasanaethau Arolygu'r Comisiwn Ewropeaidd, gan ei Swyddfa Bwyd a Milfeddygaeth, i werthuso perfformiad awdurdodau rheoli cenedlaethol a systemau rheoli cenedlaethol.

[2] Adran Materion Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru, Llywodraeth yr Alban - Cyfarwyddiaeth Gyffredinol yr Amgylchedd, ac Adran Amaeth a Datblygu Gwledig Gogledd Iwerddon (DARD).

C7. Pa gyfraith porthiant sydd wedi ei chynnwys yn y Rheoliad?

A7. Diffinnir 'cyfraith porthiant' yn benodol at ddibenion y Rheoliad yn Erthygl 2(3). I bob diben, mae'n cynnwys rheolau'r UE a rheolau cenedlaethol ar hylendid porthiant, cyfansoddiad porthiant, ychwanegion porthiant, porthiant meddyginiaethol, labelu porthiant, a meddyginiaethau milfeddygol, gweddillion plaladdwyr mewn porthiant a rheolaethau Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSE) mewn perthynas â gwaharddiad porthiant sy'n cynnwys blawd cig ac esgyrn (MBM) ac ati. Mae'n cynnwys nid yn unig porthiant ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd ond porthiant ar gyfer ceffylau, anifeiliaid anwes a physgod hefyd.

C8. Pa gyfraith fwyd sydd wedi ei chynnwys yn y Rheoliad?

A8. Y diffiniad o 'gyfraith fwyd' at ddibenion y Rheoliad yw'r un a ddefnyddir yn Rheoliad Cyfraith Fwyd Gyffredinol yr UE 178/2002.[3] I bob diben, mae'n cynnwys rheolau'r UE a rheolau cenedlaethol ar hylendid bwyd, cyfansoddiad bwyd, labelu bwyd, ychwanegion, TSE a halogion, meddyginiaeth filfeddygol a gweddillion plaladdwyr, safonau ar gyfer bwydydd organig, enwau wedi'u hamddiffyn ac ati. Mae Rheoliad 882/2004, fodd bynnag, yn eithrio safonau marchnata a ddatblygwyd o dan y Farchnad Amaethyddol Gyffredin yn benodol e.e y rheiny ar gyfer gwin, olew olewydd, ffrwythau a llysiau a mêl ac ati.

C9. Beth yw cwmpas y Rheoliad o ran yr elfennau porthiant a bwyd?

A9. Mae'n cynnwys rheolaethau yn ystod pob cam cynhyrchu, prosesu a dosbarthu. Mae'n cynnwys rheolaethau ar fwyd anifeiliaid a bwyd a gynhyrchwyd yn yr UE a bwyd sy'n cael ei allforio y tu allan i'r Gymuned neu ei fewnforio o'r tu allan i'r Gymuned, h.y. trydydd gwledydd. Mae rheolau penodol presennol ar gyfer meysydd penodol sy'n peri pryder, e.e. rheolaethau BSE a rheolaethau hylendid bwyd ar gyfer cynnyrch sy'n dod o anifeiliaidol, yn dal yn berthnasol heb ragfarn i'r Rheoliad trosfwaol hwn.

C10. Beth yw prif elfennau'r Rheoliad?

A10. Maent fel a ganlyn:

- Egwyddorion cyffredinol ar gyfer trefniadau rheoli swyddogol yn yr Aelod-wladwriaethau – gweler C12;
- Gofynion ar gyfer yr awdurdodau cymwys – gweler C13 i C29;
- Gofynion ar gyfer samplu a dadansoddi ac ar gyfer labordai swyddogol – gweler C30-C33);
- Rheolaethau swyddogol mewnforion porthiant a bwyd o'r tu allan i'r UE (h.y. o drydydd gwledydd) – gweler C34 i C45;
- Ariannu rheolaethau swyddogol – gweler C46 i C51;
- Cymorth a chydweithredu gweinyddol gydag Aelod-wladwriaethau eraill a chyda'r Comisiwn – gweler C52 i C54;
- Cynlluniau rheoli cenedlaethol ac adroddiadau blynyddol i'r Comisiwn – gweler C55 i C58;

Rheoliad EC 178/2002 Senedd Ewrop a''r Cyngor sy'n pennu egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith fwyd, sefydlu'r Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewropeaidd a gosod gweithdrefnau ynghylch materion yn ymwneud â diogelwch bwyd. Cyfnodolyn Swyddogol L31, 1.2.2002, 1-24.

- Rheolaethau cymunedol yn yr Aelod-wladwriaethau ac mewn trydydd gwledydd – gweler C59 i C62.

C11. Pryd oedd darpariaethau'r Rheoliad yn berthnasol?

A11. Roedd y rhan fwyaf o'r darpariaethau yn y Rheoliad yn berthnasol o 1 Ionawr 2006 ond roedd y darpariaethau'n ymwneud ag ariannu rheolaethau swyddogol (Erthyglau 27 a 28) yn berthnasol o 1 Ionawr 2007. Yn ogystal, roedd y gofyniad i gael cynllun rheoli cenedlaethol (gweler C55) yn berthnasol o 1 Ionawr 2007.

Egwyddorion cyffredinol ar gyfer trefniadau rheoli swyddogol yn yr Aelod-wladwriaethau

C12. Beth yw'r egwyddorion hyn?

A12. Caiff y rhain eu cynnwys yn Erthygl 3 o'r Rheoliad ac maent yn nodi y dylid sefydlu'r system reoli genedlaethol fel bod rheolaethau'n cael eu gwneud:

- yn rheolaidd ac yn unol ag ymagwedd yn seiliedig ar risg;
- heb rybudd o flaen llaw i'r busnesau perthnasol, oni bai bod hynny'n angenrheidiol;
- yn ystod pob cam cynhyrchu, prosesu a dosbarthu; ac
- ar fwyd anifeiliaid a bwyd a gynhyrchwyd ac a werthwyd yn yr UE, yn ogystal â porthiant a bwyd i'w allforio a mewnforion porthiant a bwyd.

Gofynion ar gyfer yr awdurdodau cymwys

C13. Beth yw'r gofynion hyn?

A13. Y prif rai, a nodir yn Erthyglau 4 i 9, 31 a 54 o'r Rheoliad, yw y dylai'r awdurdod cymwys:

- fodloni meini prawf gweithredol penodol – fel cael digon o staff cymwys a phrofiadol, gan sicrhau nad oes gwrthdaro buddiannau ymysg staff, cael cynlluniau wrth gefn ar gyfer argyfyngau, cael pwerau cyfreithiol priodol, cael cyfleusterau ac offer addas ac ati.
- cynnal archwiliadau mewnol neu ymgymryd ag archwiliadau allanol;
- sicrhau bod amodau penodol yn cael eu bodloni os oes unrhyw dasg reoli yn cael ei dirprwyo i drydydd parti annibynnol h.y. 'corff rheoli' (gweler C17);
- sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant priodol a pharhaus;
- bod yn dryloyw am ei weithgarwch monitro a gorfodi;
- paratoi adroddiadau o reolaethau unigol a rhoi copïau i fusnesau;
- meddu ar ddogfennau o weithdrefnau ar gyfer cynnal rheolaethau, eu defnyddio a'u diweddaru, fel y bo angen;
- sicrhau cydlynu effeithiol ac effeithlon gydag awdurdodau cymwys eraill neu rhwng unedau gwahanol un awdurdod;
- meddu ar weithdrefnau ar gyfer cofrestru/cymeradwyo eiddo; a
- chymryd camau priodol lle nad yw busnesau'n cydymffurfio â'r gyfraith.

C14. Ydy hyn wedi golygu unrhyw newidiadau i'r trefniadau monitro a gorfodi yn y DU mewn perthynas â bwyd?

A14. Roedd y rhan fwyaf o ddarpariaethau Rheoliad 882/2004 yn cydgrynhoi'r gofynion mewn deddfwriaeth Gymunedol flaenorol fel bod trefniadau monitro a gorfodi yn y DU mewn perthynas â bwyd eisoes yn cyd-fynd â'r rhain ar y cyfan. Fodd bynnag, bu angen rhywfaint o ddiweddaru mewn rhai meysydd. Lle y bo'n briodol, cyflawnwyd hyn trwy adolygu cyfarwyddiadau gorfodi neu weithredol ac ati a restrir yn yr Atodiad. Roedd rhai gofynion yn newydd ar lefel yr UE, yn bennaf, y rheiny ar archwilio, dirprwyo tasgau i gyrff rheoli, a thryloywder.

C15. A yw hyn wedi golygu unrhyw newidiadau i'r trefniadau monitro a gorfodi yn y DU mewn perthynas â porthiant?

A15. Disodlodd Rheoliad yr UE Gyfarwyddeb 95/53/EC[4] a ddarparodd fframwaith ar gyfer gorfodi deddfwriaeth porthiant y CE. Mewn llawer o achosion, mae Rheoliad 882/2004 yn cynnal y darpariaethau a oedd yn berthnasol o dan 95/53/EC – er enghraifft, mae'n cadw'r angen i wneud gwiriadau ym mhob cam o'r gadwyn fwyd. Fodd bynnag, roedd rhai darpariaethau'n newydd, e.e. mae angen cysylltu cynlluniau arolygu porthiant cenedlaethol â'r rhai sy'n cynnwys bwyd.

C16. Beth mae'r gofynion archwilio'n ei olygu i awdurdodau cymwys y DU?

A16. Caiff awdurdodau lleol/cynghorau dosbarth y DU eu harchwilio gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, yn yr un modd â'r Gwasanaeth Hylendid Cig a Gwasanaeth Milfeddygol DARD (sy'n cynnal y swyddogaeth Gwasanaeth Hylendid Cig yng Ngogledd Iwerddon). Mae'r awdurdodau hyn hefyd yn gwneud rhywfaint o fonitro mewnol a gall awdurdodau lleol a chynghorau dosbarth gymryd rhan mewn cynlluniau archwilio rhyng-awdurdod yn ogystal. Mae'r trefniadau hyn yn cael eu hadolygu yng ngoleuni Rheoliad 882/2004 ac i ystyried y canllawiau ar feini prawf ar gyfer archwiliad a sefydlwyd gan y Comisiwn.[5] Bydd yr Asiantaeth yn ymgynghori â rhanddeiliaid, yn enwedig â rhanddeiliaid gorfodi, ar unrhyw newidiadau y gallai fod eu hangen. O ran Defra a'i amryw asiantaethau, fel Iechyd Anifeiliaid (Hylendid Llaeth), rhoddir ystyriaeth ar hyn o bryd i'r trefniadau archwilio y mae eu hangen.

C17. Beth yw 'corff rheoli'?

A17. Diffinnir y term 'corff rheoli' at ddibenion y Rheoliad yn Erthygl 2(5). I bob diben, mae cyrff rheoli'n sefydliadau annibynnol y mae'r awdurdod cymwys wedi dirprwyo tasgau penodol iddynt. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, labordai preifat a ddefnyddir gan awdurdod cymwys i gynnal dadansoddiad cemegol neu archwiliad microfiolegol (gweler C18 hefyd). Wrth ddirprwyo'r dasg, yr awdurdod cymwys sy'n bennaf gyfrifol am y gwaith.

---

[4] Cyfarwyddeb 95/53/EC y Cyngor yn pennu egwyddorion yn ymwneud â threfnu arolygiadau swyddogol ym maes maethiad anifeiliaid. Cyfnodolyn Swyddogol L 265 , 8.11.1995, 17-22.

Penderfyniad 2006/677 y Comisiwn yn pennu'r canllawiau sy'n gosod meini prawf ar gyfer cynnal archwiliadau o dan Reoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd a Chyngor Ewrop ar reolaethau swyddogol i ddilysu cydymffurfio â chyfraith porthiant a bwyd, iechyd anifeiliaid a rheolau lles anifeiliaid. Cyfnodolyn Swyddogol L 278, 10.10.2006, 15-23.

C18. A oes unrhyw gyrff rheoli yn y DU?

A18. Oes. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, labordai preifat Public Analyst ac Agricultural Analyst sy'n gwneud gwaith dadansoddi ar gyfer awdurdodau lleol/cynghorau dosbarth a labordai sy'n cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol/cynghorau dosbarth hefyd sy'n gwneud gwaith preifat ar gyfer awdurdodau eraill. Nid yw Swyddogion Iechyd y Cyhoedd Ymgynghorol sydd ar gontract gydag awdurdodau lleol, fodd bynnag, yn cael eu hystyried yn 'gyrff rheoli' am eu bod yn gweithio o dan oruchwyliaeth yr awdurdod hwnnw.

C19. Pa fath o dasgau allai gael eu dirprwyo?

A19. Gellir dirprwyo unrhyw dasgau sy'n ymwneud â monitro cydymffurfiaeth busnesau â chyfraith porthiant a chyfraith fwyd, am nawr, e.e. arolygiadau, samplu a dadansoddi ac ati. Fodd bynnag, efallai na fydd y cyfrifoldeb dros weithredu gorfodi ffurfiol lle bydd diffyg cydymffurfiaeth â'r gyfraith yn cael ei ganfod (e.e. cyhoeddi gorchymyn gwahardd brys) yn cael ei ddirprwyo. Dim ond yr awdurdod cymwys perthnasol all weithredu yn y modd hwn. Gall y Comisiwn, yn ddiweddarach, gyfyngu ymhellach y mathau o dasgau y gellir eu dirprwyo.

C20. Beth yw'r amodau penodol ar gyfer dirprwyo tasgau?

A20. Nodir y rhain yn fanwl yn Erthygl 5 o'r Rheoliad. I grynhoi, mae'n rhaid bod disgrifiad cywir o'r dasg a phrawf bod gan y corff rheoli yr arbenigedd angenrheidiol ac ati, a'i fod yn ddiduedd ac yn rhydd rhag gwrthdaro buddiannau yn ymwneud â'r dasg benodol. Mae'n rhaid i gyrff rheoli fodloni Safonau Ewropeaidd priodol a phenodedig ac mae'n rhaid bod gweithdrefnau wedi'u sefydlu i sicrhau bod canlyniadau unrhyw reolaethau'n cael eu cyfleu i'r awdurdod cymwys. Yn ogystal, mae'n rhaid i'r awdurdod cymwys drefnu bod y corff rheoli'n cael ei archwilio neu ei arolygu, ac os yw'n canfod nad yw'r corff rheoli'n bodloni'r amodau penodedig, mae'n rhaid tynnu'r ddirprwyaeth yn ôl.

C21. Sut mae'r gofynion archwilio/arolygu ar gyfer cyrff rheoli'r DU yn cael eu bodloni?

A21. Mae'n rhaid i unrhyw labordai sy'n gwneud dadansoddiad at ddibenion rheoli swyddogol fodloni safonau penodol (a bod wedi eu hachredu i safonau penodol). Yn y DU, cynhelir achrediad gan Wasanaeth Achredu y Deyrnas Unedig (UKAS). Er bod archwilio'r labordy eisoes yn rhan o'r broses achredu, nid yw hyn yn cynnwys perfformiad yn erbyn gofynion deddfwriaeth benodol yn ymwneud â swyddogaeth rheoli bwyd swyddogol y labordy. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi gweithio'n agos gyda'r Association of Public Analysts ac UKAS i ymgorffori'r agwedd hon yn yr archwiliad achredu estynedig. Adlewyrchir y newidiadau cytûn mewn adolygiad o'r trefniant ffurfiol a wnaed rhwng yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac UKAS yn ymwneud ag achredu labordai rheoli bwyd swyddogol.

C22. Beth yw'r gofynion ar dryloywder?

A22. Nodir y rhain yn Erthygl 7 o'r Rheoliad. Mae'n rhaid i awdurdodau cymwys Aelod-wladwriaethau gyhoeddi gwybodaeth am reolaethau swyddogol a gynhelir ac ar eu heffeithiolrwydd, h.y. manylion gweithgarwch gorfodi a chanlyniadau hyn. Wrth wneud hynny, ni ddylai awdurdodau ddatgelu gwybodaeth sy'n cael ei chynnwys mewn cyfrinachedd proffesiynol. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn Ewropeaidd hefyd yn ôl y Rheoliad (Erthygl 44) lunio a

chyhoeddi adroddiad blynyddol ar weithrediad cyffredinol trefniadau monitro a gorfodi yn yr Aelod-wladwriaethau.

C23. Sut mae'r rhwymedigaeth hon ar gyfer awdurdodau cymwys yn cael ei bodloni yn y DU?

A23. Cyhoeddir llawer o wybodaeth yn y DU ar weithgarwch monitro a gorfodi mewn perthynas â porthiant a bwyd. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, awdurdodau lleol a chynghorau dosbarth yn cyhoeddi polisïau gorfodi, cynlluniau cyflwyno gwasanaeth ac adolygiadau perfformiad. Yn ogystal, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cyhoeddi data monitro y mae'n ei gasglu ar weithgarwch gorfodi ac adroddiadau archwilio awdurdodau lleol a Gwasanaethau Hylendid Cig ac ati. Mae llawer o'r wybodaeth hon ar gael ar borth gorfodi gwefan yr Asiantaeth yn: http://www.food.gov.uk/enforcement/

Mae Defra a'i Asiantaethau hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth estynedig ar eu gwefannau. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft,

- adroddiadau ar gymeradwyaeth ac arolygiadau'n ymwneud â safonau ar gyfer porthiant a bwyd organig sydd ar gael yn: http://www.defra.gov.uk/farm/organic/
- gwybodaeth ar raglenni sy'n monitro gweddillion meddyginiaethau milfeddygol mewn bwyd sydd ar gael yn: www.vmd.gov.uk a www.vet-residues-committee.gov.uk
- monitro gweddillion plaladdwyr mewn porthiant a bwyd sydd ar gael yn: http://www.pesticides.gov.uk/prc_home.asp

Yn ogystal, mae cynllun rheoli cenedlaethol y DU wedi cael ei gyhoeddi – gweler y ddolen isod – a chynigir bod crynodebau o adroddiadau blynyddol yn ymwneud â gweithredu'r cynllun hwn yn cael eu cyhoeddi pan gânt eu llunio (gweler C55 i 58).

http://www.food.gov.uk/foodindustry/regulation/europeleg/feedandfood/ncpuk

Q24. A oes angen cyhoeddi adroddiadau arolygiadau unigol?

A24. Nac oes. Mae'r Rheoliad ond yn gofyn bod yn rhaid darparu adroddiadau i'r busnes perthnasol ac ond pan fydd diffyg cydymffurfiaeth wedi cael ei ganfod (er y *gallant* gael eu darparu hefyd fel mater o drefn).

C25. Sut mae cydlynu effeithiol ac effeithlon rhwng awdurdodau'n cael ei sicrhau yn y DU?

A25. Mae'r Asiantaeth yn cydnabod pwysigrwydd cydlynu a chydweithredu rhwng awdurdodau yn ei gynllun strategol ar gyfer y cyfnod hyd at 2010 ac yn cydnabod yr angen am weithio mewn partneriaeth i gyflawni hyn. Mae'r cynllun yn pwysleisio y bydd yr Asiantaeth yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol a'u cyrff cynrychioliadol a phroffesiynol i wella cysondeb ac effeithiolrwydd gorfodi. Yn benodol, bydd yr Asiantaeth yn parhau i weithio'n agos gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi, pedair Adran Amaethyddiaeth/Materion Gwledig y DU a chyda'r awdurdodau lleol ac iechyd porthladdoedd i sicrhau bod rheolaethau bwyd sydd wedi ei fewnforio wedi'u sefydlu wrth ffiniau ac yn fewnol. Bydd hyn yn adeiladu ar lwybrau cyfathrebu a chydweithredu presennol sydd eisoes yn ddatblygedig, ac yn ceisio eu cryfhau (e.e. y prosiect 'Newid sylweddol' ar wella cydlynu a chyflwyno rheolaethau bwyd sydd wedi ei fewnforio). Ceir manylion y mecanweithiau

sydd wedi'u sefydlu ar gyfer hwyluso cydlynu rhwng awdurdodau yng Nghynllun Rheoli Cenedlaethol y DU (gweler C55).

C26. Beth yw'r gofynion yn ymwneud â chofrestru a chymeradwyaeth?

A26. Mae'r gofynion ar gyfer sefydliadau porthiant a bwyd i'w cofrestru neu eu cymeradwyo wedi eu nodi yn Rheoliad Hylendid Porthiant yr UE[6] a deddfwriaeth Hylendid Bwyd yr UE.[7,8] Mae Rheoliad 882/2004 yn nodi yn Erthygl 31 cyfrifoldebau'r awdurdodau cymwys i ymgymryd â'r broses gofrestru neu gymeradwyo. Awdurdodau lleol a'r Asiantaeth Safonau Bwyd sy'n gyfrifol am gymeradwyo ym Mhrydain Fawr, ac yng Ngogledd Iwerddon, y cynghorau dosbarth sy'n gyfrifol am sefydliadau bwyd a DARD sy'n gyfrifol am sefydliadau porthiant. Ceir arweiniad penodol ar ofynion cymeradwyo a chofrestru mewn cyfarwyddiadau gorfodi ar gyfer yr awdurdodau hyn (gweler yr Atodiad). Mae arweiniad i fusnesau porthiant a bwyd ar y gofynion cofrestru a chymeradwyo ar gael ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn:

http://www.food.gov.uk/foodindustry/guidancenotes/hygguid/approvregfeedguidance

http://www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/fsaguidefoodhygleg.pdf

C27. Beth yw'r cyfrifoldebau yn ymwneud â chofrestru?

A27. Nodir y rhain yn fanwl yn Erthygl 31(1) o Reoliad 882/2004. Yn gryno, maent fel a ganlyn:

- sefydlu gweithdrefn i weithredwyr busnesau porthiant a bwyd ei dilyn wrth wneud cais i gofrestru; a,
- chadw rhestr ddiweddar o sefydliadau cofrestredig.

Yn y DU, bydd pob awdurdod lleol, cyngor dosbarth (yng Ngogledd Iwerddon) neu awdurdod arall sy'n gyfrifol am gofrestru, yn cynnal rhestr o eiddo cofrestredig yn eu hardal. Pan fyddant ar gael, gellir defnyddio rhestrau sydd eisoes ar gael o sefydliadau, e.e. mae data o'r Asiantaeth Taliadau Gwledig yn ymwneud ag eiddo cynhyrchiant sylfaenol wedi ei ddarparu i awdurdodau lleol unigol.

C28. Beth yw'r cyfrifoldebau yn ymwneud â chymeradwyaeth?

A28. Nodir y rhain yn fanwl yn Erthygl 31(2) o Reoliad 882/2004. Yn gryno, maent fel a ganlyn:

- sefydlu gweithdrefn i weithredwyr busnesau porthiant a bwyd i'w dilyn wrth wneud cais am gymeradwyaeth;
- rhoi cymeradwyaeth, ar ôl ymweliad yn y fan a'r lle, os yw'r gofynion angenrheidiol yn cael eu bodloni yn unig; neu,
- rhoi cymeradwyaeth amodol os yw'r gofynion isadeiledd ac offer yn cael eu bodloni, ond am uchafswm o chwe mis yn unig;
- parhau i adolygu'r gymeradwyaeth a'i gohirio neu ei thynnu'n ôl os oes angen; a,

---

[6] Rheoliad (EC) Rhif 183/2005 Senedd a Chyngor Ewrop yn pennu gofynion ar gyfer hylendid porthiant. Cyfnodolyn Swyddogol L 35, 8.2.2005, 1-22.

[7] Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd a Chyngor Ewrop ar hylendid deunyddiau bwyd. Cyfnodolyn Swyddogol L 226 , 25.6.2004, 3-21.

[8] Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd a Chyngor Ewrop yn pennu rheolau penodol ar gyfer hylendid bwyd sy'n tarddu o anifeiliaid. Cyfnodolyn Swyddogol L226, 25.6.2004, 22-82.

- chadw rhestr ddiweddar o sefydliadau cymeradwy.

Yn y DU, cedwir rhestrau o eiddo cymeradwy yn ganolog gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

C29. A yw'r rhestrau o sefydliadau cofrestredig a chymeradwy'n cael eu cyhoeddi ac, os felly, pwy sy'n cyhoeddi'r rhestr?

A29. Mae'n rhaid cyhoeddi rhestrau o sefydliadau sydd wedi cael eu cymeradwyo o dan Reoliad Hylendid Porthiant yr UE a deddfwriaeth Hylendid Bwyd yr UE. Mae'r Comisiwn wedi datblygu rheolau manwl ar gyhoeddi sy'n datgan yr wybodaeth i'w chynnwys a bod y rhestrau ar gael trwy ddolen i wefan y Comisiwn. Nid oes angen cyhoeddi rhestrau o sefydliadau bwyd y mae angen eu cofrestru yn unig. Fodd bynnag, mae angen i restrau o eiddo sydd wedi eu cofrestru gan awdurdodau lleol o dan y Rheoliad Hylendid Porthiant fod ar gael yn gyhoeddus.

Mae rhestrau o eiddo porthiant/bwyd cymeradwy yn y DU ar gael yn

http://www.food.gov.uk/enforcement/applicense/feedpremisesregister

http://www.food.gov.uk/foodindustry/meat/meatplantsprems/meatpremlicence

http://www.food.gov.uk/foodindustry/meat/meatplantsprems/meatplants

http://www.food.gov.uk/foodindustry/farmingfood/milkandairy

Gofynion ar gyfer samplu a dadansoddi ac ar gyfer labordai swyddogol

C30. Beth yw'r gofynion ar gyfer samplu a dadansoddi?

A30. Nodir y gofynion yn Erthygl 11 ac Atodiad III o'r Rheoliad. Dylai'r dulliau samplu a'r dulliau dadansoddi cemegol ar archwilio microbiolegol a ddefnyddir at ddibenion rheoli swyddogol fod yn unol â'r rheiny a nodir mewn deddfwriaeth Gymunedol. Os nad oes dulliau Cymunedol yn bodoli, dylid defnyddio rheolau neu brotocolau a gydnabyddir yn rhyngwladol lle bynnag y bo'n bosibl.

C31. Beth yw labordai swyddogol?

A31. Labordai yw'r rhain a benodir gan yr awdurdodau cymwys i ddadansoddi yn gemegol neu archwilio'n ficrobiolegol samplau a gymerwyd at ddibenion rheoli swyddogol. Yn y DU, mae'r rhain yn cynnwys y Public and Agricultural Analysts, a'r Asiantaeth Diogelu Iechyd a labordai ymddiriedolaethau ysbytai sy'n gwneud gwaith i awdurdodau lleol neu gynghorau dosbarth. Mae hefyd yn cynnwys labordai eraill sy'n gwneud gwaith i'r awdurdodau canolog, e.e. i'r Gyfarwyddiaeth Diogelwch Plaladdwyr a'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol.

C32. Beth yw'r gofynion ar gyfer labordai swyddogol?

A32. Nodir y rhain yn Erthygl 12 o'r Rheoliad. Mae'n rhaid i'r awdurdodau cymwys ddynodi'r labordai swyddogol felly. Gellir ond rhoi dynodiad os yw'r labordy yn bodloni safonau penodol a nodwyd (h.y. ei fod wedi ei achredu i'r Safonau Ewropeaidd a nodir yn Rheoliad 882/2004). Yn y DU, rhoddir achrediad gan Wasanaeth Achredu y Deyrnas Unedig (UKAS). Mae hwn yn ofyniad newydd ar gyfer labordai swyddogol sy'n dadansoddi porthiant ac yn eu gwneud yn unol â gofynion presennol ar gyfer y rheiny sy'n dadansoddi bwyd. Ceir, fodd

bynnag, gyfnod trosiannol hyd at 31 Rhagfyr 2009 i alluogi labordai porthiant i gael eu hachredu.

C33. Pa labordai yn y DU sy'n labordai swyddogol?

A33. Cyhoeddir rhestr o labordai porthiant a bwyd swyddogol sy'n cynnal dadansoddiad cemegol neu archwiliad microbiolegol ar samplau ar ran awdurdodau lleol a chynghorau dosbarth ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn:

http://www.food.gov.uk/enforcement/foodsampling/foodcontrollabs

Rheolaethau swyddogol mewnforion porthiant a bwyd o'r tu allan i'r UE (h.y. o drydydd gwledydd)

C34. Beth yw'r trefniadau ar gyfer gwirio porthiant a chynnyrch bwyd sy'n dod o anifeiliaid (POAO)?

A34. Mae'r rheolau a nodir ar gyfer POAO yng Nghyfarwyddiaeth y Cyngor 97/78/EC[9] (gweler Erthygl 14 o'r Rheoliad) yn berthnasol. Gweithredir y rheolau hyn yn Lloegr gan Reoliadau Cynnyrch sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion o Drydydd Gwledydd) (Lloegr) 2006.[10] Ceir deddfwriaeth gyfatebol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.[11] Cynhelir gwiriadau yn y Mannau Archwilio ar y Ffin, lle mae pob cyflenwad yn destun gwiriadau dogfennol ac adnabod ac i lefelau gwiriadau ffisegol rhagnodedig.

C35. Pwy sy'n gyfrifol am gynnal y gwiriadau hyn?

A35. Awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd (Gwasanaeth Milfeddygol DARD a chynghorau dosbarth yng Ngogledd Iwerddon) mewn porthladdoedd môr ac awyr gyda Mannau Archwilio ar y Ffin dynodedig.

C36. A oes angen unrhyw wiriadau eraill ar POAO?

A36. Mae'r Rheoliad yn gofyn bod yr awdurdodau sy'n gwneud gwiriadau milfeddygol ar POAO o dan Gyfarwyddiaeth y Cyngor 97/78/EC hefyd yn gwirio bod gofynion eraill cyfraith porthiant a bwyd yn cael eu bodloni. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, gwiriadau ar halogion, gweddillion plaladdwyr a meddyginiaethau milfeddygol ac ychwanegion, y mae llawer ohonynt eisoes yn rhan o'r gyfundrefn wirio filfeddygol yn y DU. Mae deddfwriaeth Cynnyrch sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion o Drydydd Gwledydd) wedi cael ei diwygio i adlewyrchu'r newidiadau yn ymwneud â gwiriadau POAO. Mae arweiniad ar y newidiadau hyn wedi cael eu hymgorffori mewn adolygiad o'r Llawlyfr Mannau Archwilio ar y Ffin (gweler yr Atodiad).

[9] Cyfarwyddeb 97/78/EC y Cyngor yn pennu egwyddorion sy'n llywodraethu gwiriadau milfeddygol ar gynnyrch sy'n dod i mewn i'r Gymuned o drydydd gwledydd. Cyfnodolyn Swyddogol L24, 30.1.98, 9-30.

[10] Offeryn Statudol 2006, Rhif 2841 (fel y'i addaswyd gan SI 2007/1605).

[11] Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Yr Alban) 2007 – Offeryn Statudol yr Alban 2007, Rhif 1 (fel y'i addaswyd gan 2007/304). Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2007 – Offeryn Statudol Cymru 2007, Rhif 376 (W.36) (fel y'i addaswyd gan SI 2007/1710 (W. 148). Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Gogledd Iwerddon) 2007 – Rheol Statudol 2007, Rhif 199 (fel y'i addaswyd gan SR 2007/314).

C37. Beth yw'r trefniadau ar gyfer gwirio porthiant a chynnyrch bwyd nad ydynt yn dod o anifeiliaid (nad ydynt yn POAO)?

A37. Mae'r rheolau ar gyfer gwiriadau nad ydynt yn POAO wedi eu cynnwys yn Erthyglau 15 i 25 o'r Rheoliad a maent yn gofyn bod gwiriadau'n cael eu trefnu ar sail y cynllun rheoli cenedlaethol (gweler C55 i C58). Yn gyffredinol, dylai dogfennau gael eu gwirio'n systematig gyda gwiriadau adnabod a ffisegol ychwanegol ar hap. Dylai amlder gwiriadau ffisegol ystyried y peryglon sy'n gysylltiedig â'r cynnyrch, hanes cydymffurfio, rheolaethau a weithredir gan y mewnforiwr, ac unrhyw warantau a roddir gan yr awdurdod cymwys yn ymwneud â'r trydydd gwlad (h.y. gwybodaeth am drefniant a rheolaeth systemau rheoli a weithredir gan y wlad honno ac a asesir gan y Comisiwn). Gall y gwiriadau hyn ddigwydd mewn unrhyw fan priodol ond byddant fel arfer yn y pwynt mynediad i'r DU. Mae'r Rheoliad hefyd yn darparu fframwaith ar gyfer gwiriadau 'risg uchel' nad ydynt yn POAO ac mae rheolau gweithredu newydd yn cael eu sefydlu i roi hyn ar waith (gweler C39).

C38. Beth yw'r trefniadau ar gyfer rheolaethau porthiant a bwyd nad ydynt yn POAO sy'n deillio o wledydd a ymunodd â'r UE ym Mai 2004?

A38. Mae'r Rheoliad yn diffinio'r termau 'mewnforio' a 'chyflwyniad' gan gyfeirio at restr o diriogaethau Cymunedol (gweler Atodiad 1 o'r Rheoliad). Mae hyn yn cynnwys y 15 Aelod-wladwriaeth a luniodd y Gymuned pan gafodd y Rheoliad ei fabwysiadu yn Ebrill 2004. Ers hynny, gwnaed diwygiad i Bwlgaria a Romania ond nid yw'r Atodiad wedi cael ei ddiwygio i gynnwys y deg Aelod-wladwriaeth a ymunodd â'r UE ym Mai 2004. O ganlyniad, gellir ystyried cynnyrch o'r Aelod-wladwriaethau hyn sy'n mynd i mewn i weddill y Gymuned yn fewnforion o drydydd gwledydd. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn ddiweddar wedi cyhoeddi argymhelliad i Reoliad Cyngor a Senedd Ewrop addasu Atodiad 1 er mwyn mynd i'r afael â'r amryfusedd hwn. Yn y cyfamser, cyngor yr Asiantaeth yw y dylid ystyried porthiant a bwyd nad ydynt yn POAO sy'n dod i mewn i'r DU o'r deg Aelod-wladwriaeth hyn fel masnach o fewn y Gymuned.

C39 Beth yw'r fframwaith ar gyfer gwiriadau ar elfennau 'risg uchel' nad ydynt yn POAO?

A39. Mae'r fframwaith yn dod â'r gofynion ar gyfer cynnyrch 'risg uchel' (gweler Cwestiynau 41 i 44 hefyd), yn fwy unol â'r rheiny ar gyfer POAO. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i fewnforwyr hysbysu'r awdurdodau perthnasol o flaen llaw bod cynnyrch 'risg uchel' nad ydynt yn POAO, yn cyrraedd. Yn ogystal, bydd yn rhaid iddynt gyflwyno'r cynnyrch hyn mewn porthladdoedd penodol a ddynodwyd yn arbennig i ymdrin â chynnyrch 'risg uchel'. Bydd y cynnyrch eu hunain yn destun lefel gynyddol o wiriadau yn debyg iawn i'r ffordd y mae cynnyrch sy'n cael eu cynnwys o fewn mesurau Diogelu Brys y Comisiwn ar hyn o bryd.

C40. Pwy sy'n gyfrifol am gynnal gwiriadau ar elfennau nad ydynt yn POAO?

A40. Awdurdodau lleol (ar wahân i gynghorau dosbarth ar gyfer porthiant) ac awdurdodau porthladdoedd (yn cynnwys Awdurdod Iechyd Porthladdoedd Dinas Llundain ar gyfer porthiant) sy'n gyfrifol ym Mhrydain Fawr ac, yng Ngogledd Iwerddon, cynghorau dosbarth sy'n gyfrifol am fwyd nad ydynt yn POAO a DARD ar gyfer porthiant nad ydynt yn POAO.

C41. Beth yw porthiant a bwyd 'risg uchel' nad ydynt yn POAO?

A41. Cynnyrch yw'r rhain lle mae risg hysbys neu risg sy'n dod i'r amlwg i iechyd pobl neu anifeiliaid. Byddant yn cael eu hadnabod trwy restr i gael ei llunio ar lefel yr UE ac y dylid ei hadolygu'n barhaus. Daw y rhestr i rym (a chaiff ei diwygio, fel y bo angen) trwy Reoliadau'r Comisiwn. Mae'r rhestr yn debygol o gynnwys, er enghraifft pysgnau neu gnau pistasio o ardaloedd lle mae problemau wedi bod gyda heintiad aflatoxin.

C42. Sut bydd porthladdoedd yn cael eu dylunio ar gyfer mewnforio porthiant a bwyd 'risg uchel' nad ydynt yn POAO?

A42. Caiff y porthladdoedd hyn eu dylunio gan Aelod-wladwriaethau (yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn achos y DU) pan fydd cynnyrch yn cael ei adnabod ar lefel yr UE. Cânt eu dylunio ar sail eu gallu i ymdrin â'r math penodol o nwyddau a'r gwiriadau a'r profion penodol sy'n angenrheidiol.

C43. Pa lefel o wiriadau bydd y cynnyrch hyn yn eu cael?

A43. Bydd amlder a natur y gwiriadau i'w cynnal yn dibynnu ar y nwyddau a'r mater diogelwch bwyd a chânt eu nodi ar yr un pryd â chynnyrch sy'n cael eu cynnwys ar y rhestr 'risg uchel' (gweler Cwestiynau 41 a 44).

C44. Pryd fydd y rhestr o gynnyrch 'risg uchel' yn cael ei llunio?

A44. Cyhoeddodd y Comisiwn argymhellion ar gyfer gweithredu rheolau i roi grym i'r fframwaith a sefydlwyd gan Reoliad 882/2004, yn cynnwys llunio'r rhestr o gynnyrch 'risg uchel' ar ddechrau 2007. Mae trafodaethau'n parhau ar lefel yr UE ac mae'r Comisiwn yn gobeithio y caiff y rheolau eu cytuno yn ystod hanner cyntaf 2008. Yn y cyfamser, bydd mesurau diogelu presennol yn parhau i fod yn berthnasol a gall mesurau pellach gael eu cyflwyno o dan ddarpariaethau Rheoliad Cyfraith Fwyd Gyffredinol yr UE (178/2002) fel nad yw diogelu iechyd y cyhoedd ac anifeiliaid yn cael ei beryglu.

C45. Pa bwerau gorfodi fydd gan awdurdodau lleol a chynghorau dosbarth yn ymwneud â darpariaethau mewnforio newydd ar gyfer mewnforion nad ydynt yn POAO?

A45. Gwneir darpariaethau ar gyfer gorfodi'r gofynion hyn yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol Porthiant a Bwyd (Lloegr) 2007[12] (a deddfwriaeth baralel yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon). Gan nad yw'r rhestr o gynnyrch 'risg uchel' nad ydynt yn POAO wedi cael ei gytuno eto, nid yw'n bosibl, yn ystod y cam hwn, i ddeddfu ar gyfer y cynnyrch hyn ar lefel genedlaethol. Caiff y ddeddfwriaeth, fodd bynnag, ei diwygio unwaith y bydd y rheolau gweithredu wedi cael eu cytuno ar lefel yr UE. Mae arweiniad ar gyfer gorfodwyr ar reolaethau bwyd sy'n cael ei fewnforio wedi cael ei lunio gan yr Asiantaeth a chaiff ei gynnwys yn yr Arweiniad Ymarfer sydd wedi ei ddiweddaru sy'n gysylltiedig â Chodau Ymarfer ar Orfodi Cyfraith Fwyd ar gyfer awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd porthladdoedd a chynghorau dosbarth. Yn yr un modd, mae arweiniad ar y rheolau mewn perthynas â porthiant sydd wedi ei fewnforio wedi cael ei gynnwys yn yr Arweiniad Ymarfer arfaethedig sy'n gysylltiedig â'r Cod Ymarfer ar Orfodi Cyfraith Porthiant ym

[12] Offeryn Statudol 2007/3185 (diddymodd a disodlodd Reoliadau Rheolaethau Porthiant a Bwyd Swyddogol (Lloegr) 2006, SI 2006/15, oedd mewn grym o 11 Ion 2006 tan 14 Rhag 2007).

Mhrydain Fawr a'r Arweiniad ar Orfodi Cyfraith Porthiant yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer DARD.

Ariannu rheolaethau swyddogol

C46. Beth yw'r gofynion ar gyfer ariannu rheolaethau?

A46. Nodir y rhain yn fanwl yn Erthyglau 26 i 29 o'r Rheoliad. Mae'r rhain yn rhoi dyletswydd gyffredinol ar Aelod-wladwriaethau i sicrhau bod rheolaethau swyddogol yn cael eu hariannu'n gywir, ond, yn nhermau eang, yr Aelod-wladwriaeth sy'n penderfynu sut. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Aelod-wladwriaeth weithredu o fewn fframwaith penodol. Mae hyn yn gofyn am ffioedd gorfodol yn rhai sectorau gydag opsiwn i godi tâl mewn sectorau eraill.

C47. Ym mha sectorau y mae porthiant yn orfodol?

A47. Mae ffioedd yn orfodol yn y sectorau hynny lle mae hyn eisoes yn ofynnol yn ôl deddfwriaeth bresennol yr UE. Mae'r rhain ar gyfer:

- gwiriadau ar gynnyrch sy'n dod o anifeiliaid, sydd wedi eu cynhyrchu yn yr UE a'r rheiny sy'n dod o drydydd gwledydd, e.e. arolygiadau hylendid cig a physgod, y mae trefniadau codi tâl ar eu cyfer wedi ei nodi ar hyn o bryd yng Nghyfarwyddeb 85/73/EEC;[13] a,
- chymeradwyaeth sefydliadau porthiant (sy'n ofynnol ar hyn o bryd o dan Benderfyniad y Cyngor 98/728/EC[14]);

Mae hefyd eu hangen ar gyfer 'rheolaethau swyddogol ychwanegol' (gweler C49).

C48. Sut mae ffioedd yn cael eu cyfrifo?

A48. Pan godir tâl (naill ai'n orfodol neu'n ddewisol), caniateir adfer y gost lawn ond nid yw'n orfodol, ac mae'n rhaid dilyn egwyddorion cyffredinol penodol i ystyried yr effeithiau ar fusnesau bach ac ati. Ar gyfer arolygiadau hylendid cig a physgod, nodir isafswm ffioedd cyfradd wastad. Caiff y cyfraddau hyn eu diweddaru bob dwy flynedd i ystyried cynnydd o ran chwyddiant yn y costau i'r awdurdodau gorfodi. Yn achos gwiriadau o fewn y Gymuned, mae trefniadau trosiannol wedi eu cynnwys fel bod taliadau isafswm o dan y ddeddfwriaeth bresennol yn berthnasol hyd at 1 Ionawr 2008. Er gwaethaf y cyfraddau gwastad, gall Aelod-wladwraethau adfer hyd at ac yn cynnwys costau llawn neu gallant leihau'r ffioedd islaw'r cyfraddau isafswm pan fydd y costau gwirioneddol yn llai.

C49. Beth yw 'rheolaethau swyddogol ychwanegol'?

A49. Gwiriadau ychwanegol yw'r rhain y mae eu hangen yn dilyn canfod torri rheolau neu ddiffyg cydymffurfio â gofynion cyfraith porthiant neu fwyd (gweler Erthygl 28). Fodd bynnag, ein dealltwriaeth yw na ddylai pob 'rheolaeth ychwanegol' o'r fath fod yn destun ffioedd ond yn hytrach bod hyn yn berthnasol yn achos digwyddiadau mawr ac arwyddocaol yn unig. Ceir mwy o wybodaeth ar hyn yn: *Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol Porthiant a Bwyd*

[13] Cyfarwyddeb 85/73/EEC y Cyngor ar ariannu arolygiadau iechyd a rheolaethau cig ffres a chig dofednod. Cyfnodolyn Swyddogol L32, 5.2.1985, 14-15.

[14] Penderfyniad 98/728/EC y Cyngor ynghylch system y Gymuned o ffioedd yn y sector porthiant. Cyfnodolyn Swyddogol L346, 22.12.1998, 51-53.

(Lloegr) 2007 - rheoliad 41 o'r costau yn deillio o 'reolaethau swyddogol ychwanegol' – Nodiadau Arweiniad. Mae hwn ar gael yn:

http://www.food.gov.uk/foodindustry/guidancenotes/foodguid/offcexpenses

C50. A oes ffioedd ar gyfer gwiriadau mewnforion o drydydd gwledydd nad ydynt yn POAO?

A50. Ar gyfer cynnyrch 'risg uchel' *gellir* cyflwyno ffioedd gorfodol nad ydynt yn POAO pan gaiff y cynnyrch hyn eu cynnwys ar y rhestr Gymunedol (gweler C41). Bydd y DU yn parhau i bwyso am ffioedd ar gyfer y gwiriadau hyn am fod hyn yn unol â'r trefniadau ar gyfer POAO sydd yn yr un modd yn cael eu hystyried yn 'risg uchel' a bod y rhain yn orfodol ar draws yr UE er mwyn sicrhau nad yw masnach yn cael ei anffurfio gan amrywiadau mewn arferion codi tâl.

C51. A yw'r darpariaethau hyn wedi arwain at newidiadau mewn trefniadau ariannu yn y DU?

A51. Daeth y darpariaethau ar ariannu i rym ar 1 Ionawr 2007. Ar yr adeg honno daeth Rheoliad yr UE yn sail gyfreithiol ar gyfer unrhyw daliadau neu ffioedd sy'n cael eu codi yn y DU. Hyd yn hyn, codir ffioedd/taliadau yn y sectorau hynny lle talwyd ffioedd/taliadau cyn cyflwyno Rheoliad 882/2004 yn unig. Yr unig eithriad sydd yw yn ymwneud â 'rheolaethau swyddogol ychwanegol' lle mae deddfwriaeth genedlaethol bellach wedi cael ei chyflwyno (gweler C49 uchod).

Cymorth gweinyddol a chydweithredu gydag Aelod-wladwriaethau eraill a chyda'r Comisiwn

C52. Pa drefniadau sydd yno ar gyfer cysylltu â'r awdurdodau cymwys mewn Aelod-wladwriaethau eraill a chyda'r Comisiwn?

A52. Nodir trefniadau manwl yn Erthyglau 34 i 40 o Reoliad 882/2004. Nod y rhain yw parhau a gwella trefniadau presennol lle gall awdurdodau cymwys yr Aelod-wladwriaethau gwahanol weithio gyda'i gilydd a chyda'r Comisiwn lle mae canlyniadau rheolaethau swyddogol yn dangos bod angen gweithredu ym mwy nag un wlad. I hwyluso'r cymorth, mae'n ofynnol ar bob Aelod-wladwriaeth i ddynodi 'corff cysylltu' ond nid yw hyn yn hepgor cysylltiadau uniongyrchol gan awdurdodau unigol.

C53. Beth yw rôl y 'corff cyswllt' a pha gorff sy'n cyflawni'r swyddogaeth hon yn y DU?

A53. Bydd y corff hwn yn gweithredu fel man cyfathrebu cyntaf ar gyfer trosglwyddo a derbyn ceisiadau am gymorth. Yn y DU, yr Asiantaeth Safonau Bwyd sy'n cyflawni'r rôl hon.

C54. A yw awdurdodau cymwys Aelod-wladwriaethau eraill yn gallu ymgymryd ag ymchwiliadau yn y DU neu gymryd camau yn erbyn busnesau'r DU?

A54. Nac ydyn. Swyddogion awdurdodau'r DU fydd yn cynnal unrhyw ymchwiliad neu'n gweithredu. Gall swyddogion awdurdodau cymwys eraill, fodd bynnag, helpu swyddogion y DU wrth wneud unrhyw ymholiadau.

Cynlluniau Rheolaeth Genedlaethol ac adroddiadau blynyddol i'r Comisiwn

C55. Beth yw'r gofynion ar gyfer cynlluniau ac adroddiadau rheolaeth?

A55. Mae'n ofynnol ar bob Aelod-wladwriaeth i baratoi cynllun rheolaeth genedlaethol 'aml-flynyddol' (Mae Erthyglau 41 i 43 o'r Rheoliad yn berthnasol). Mae hwn yn ei hanfod yn gynllun strategol sy'n sefydlu'r trefniadau monitro a gorfodi, amcanion a blaenoriaethau cenedlaethol. Dylai ddisgrifio rolau a chyfrifoldebau'r awdurdodau cymwys amrywiol, a rhoi manylion o'r ffordd y mae gofynion amrywiol y Rheoliad yn cael eu bodloni. Mae'n rhaid i hwn fod yn gynllun integredig unigol yn cynnwys trefniadau ar gyfer monitro a gorfodi cyfraith porthiant a bwyd a rheolau iechyd a lles anifeiliaid, yn ogystal â rheolaethau iechyd planhigion. Roedd yn rhaid i'r cynllun cyntaf fod wedi ei sefydlu erbyn 1 Ionawr 2007, ac mae'n rhaid ei ddiweddaru'n rheolaidd ar ôl hynny. Yn ogystal, mae'n ofynnol ar Aelod-wladwriaethau i adrodd yn flynyddol i'r Comisiwn ar weithredu'r cynllun (gweler Erthygl 44 o'r Rheoliad).

C56. Pwy sy'n gyfrifol am baratoi cynlluniau ac adroddiadau'r DU a phwy sy'n cyfrannu at y rhain?

A56. Yr awdurdodau canolog – yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Defra a'i asiantaethau a'r Adrannau Amaethyddiaeth/Materion Gwledig datganoledig – sy'n gyfrifol am baratoi cynlluniau ac adroddiadau'r DU. Mae gwybodaeth ynghylch gweithgareddau rheolaeth swyddogol awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd porthladdoedd a chynghorau dosbarth wedi ei hymgorffori.

C57. Pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn y cynllun a'r adroddiadau blynyddol?

A57. Mae'r Comisiwn wedi sefydlu canllawiau ynghylch pa wybodaeth y dylid ei chynnwys yn y cynllun rheolaeth genedlaethol[15] ac ar baratoi adroddiadau blynyddol[16] ac mae'n ofynnol ar Aelod-wladwriaethau i ystyried y canllawiau hyn.

C58. A yw cynllun y DU wedi cael ei gyhoeddi?

A58. Ydy. Mae cynllun y DU wedi cael ei gyhoeddi ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn:

http://www.food.gov.uk/foodindustry/regulation/europeleg/feedandfood/ncpuk

Argymhellir bod crynodeb o'r adroddiadau blynyddol ar weithredu'r cynllun hefyd yn cael ei gyhoeddi ar gyfer defnyddwyr y DU a rhanddeiliaid eraill ar wefan yr Asiantaeth.

---

[15] Penderfyniad 2007/336 y Comisiwn yn nodi'r canllawiau i gynorthwyo Aelod-wladwriaethau wrth baratoi cynllun rheolaeth amlflynyddol integredig sengl y darparwyd ar ei gyfer yn Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd a Chyngor Ewrop. Cynfodolyn Swyddogol L 278, 10.10.2006,15.

[16] Penderfyniad drafft y Comisiwn ar ganllawiau (F6 (2007) D660105) i gynorthwyo Aelod-wladwriaethau wrth baratoi'r adroddiad blynyddol ar y cynllun rheolaeth amlflynyddol integredig sengl y darparwyd ar ei gyfer yn Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd a Chyngor Ewrop.

Rheolaethau cymunedol yn yr Aelod-wladwriaethau ac mewn trydydd gwledydd

C59. Sut bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn sicrhau bod trefniadau monitro a gorfodi cenedlaethol mewn Aelod-wladwriaethau yn effeithiol?

A59. Bydd Gwasanaethau Arolygu'r Comisiwn, y Swyddfa Bwyd a Milfeddygaeth (FVO), yn cynnal dau fath o asesiad fel y nodir yn Erthygl 45 o'r Rheoliad. Maent fel a ganlyn:

- archwiliadau cyffredinol o'r cynlluniau rheolaeth genedlaethol ac adroddiadau blynyddol; a, lle bo angen,
- archwiliadau atodol neu benodol, e.e. lle'r ymddengys bod problemau yn dod i'r amlwg neu'n gylchol.

C60. Beth yw'r trefniadau ar gyfer gorchwylion/archwiliadau'r Swyddfa Bwyd a Milfeddygaeth (FVO)?

A60. Mae'r FVO yn cyhoeddi ei rhaglenni arolygu o flaen llaw. Mae'r awdurdodau canolog yn gyfrifol am wneud trefniadau a llunio'r amserlenni. Gall gorchwylion gynnwys ymweliadau ar y safle ag awdurdodau lleol/cynghorau dosbarth ac â busnesau. Mae adroddiadau gorchwylion yn cynnwys argymhellion ar gyfer yr Aelod-wladwriaeth berthnasol a chyhoeddir adroddiadau terfynol ar wefan y Comisiwn.

C61. Beth am asesiad trydydd gwledydd sy'n allforio i'r UE?

A61. Bydd yn rhaid i drydydd gwledydd sy'n allforio i'r UE ddarparu gwybodaeth debyg i'r hyn a geir yng nghynlluniau cenedlaethol ac adroddiadau Aelod-wladwriaethau. Defnyddir yr wybodaeth hon gan yr FBO fel sail ar gyfer archwilio'r trefniadau yn y gwledydd hyn (gweler Erthyglau 46 a 47 o'r Rheoliad).

C62. A yw'r Comisiwn yn llunio rhestrau o wledydd cymeradwy a sefydliadau cymeradwy?

A62. Os yw'r Comisiwn yn credu bod yn rhaid gosod amodau penodol ar gyfer cynnyrch porthiant a bwyd penodol, yn dibynnu ar y risg, caiff rhestrau o drydydd gwledydd cymeradwy a sefydliadau cymeradwy (gweler Erthygl 48 o'r Rheoliad). Gall y rhain fod ar gyfer cynnyrch nad ydynt yn POAO yn ogystal â rhai POAO.

Effaith ar fusnesau

C63. A oes unrhyw ofynion ar gyfer busnesau yn y Rheoliad?

A63. Nac oes. Mae'r Rheoliad yn ymwneud â threfniadau monitro a gorfodi a nodir cyfrifoldebau'r awdurdodau sy'n gyfrifol am sicrhau bod busnesau'n cydymffurfio â'r gofynion ar eu cyfer hwy yn y gyfraith porthiant a bwyd. Nid yw'r Rheoliad yn gofyn am lefelau cynyddol o wiriadau na gorfodi. Fodd bynnag, gall rhai busnesau gael eu heffeithio gan y rheolau ar fewnforion cynnyrch nad ydynt yn POAO (gweler C34 i C45) a chan y darpariaethau ariannu (gweler C46 i C51).

C64. A yw'r Rheoliad yn rhoi unrhyw fudd i fusnesau?

A64. Nod y gofynion yw sicrhau gorfodi cymesur, cyson sy'n seiliedig ar risg ar draws y Gymuned, a ddylai, yn eu tro, helpu i sicrhau nad yw busnesau o dan anfantais annheg oherwydd y trefniadau gorfodi yn eu gwledydd.

Effaith ar Ddefnyddwyr

C65. A yw'r rheolau o unrhyw fudd i ddefnyddwyr?

A65. Nod y gofynion yw gwella effeithiolrwydd gorfodi ledled y Gymuned ac wrth ei ffiniau. Dylai hyn gyfrannu at safonau gwell ar gyfer iechyd y cyhoedd a diogelu defnyddwyr. Yn ogystal, dylai'r darpariaethau ar dryloywder a chyhoeddi gwybodaeth am reolaethau swyddogol sicrhau bod gan ddefnyddwyr fynediad i wybodaeth am weithgarwch gorfodi a'i effeithiolrwydd yn y DU ac ar draws y Gymuned.

Mwy o wybodaeth

C66. Pwy ddylwn i gysylltu â nhw os oes gennyf unrhyw ymholiadau?

A66. Yn y lle cyntaf, cysylltwch â: David Millis o Dîm Gweithredu Rheoliad Rheolaeth Swyddogol yr Asiantaeth yn:

Food Standards Agency, Aviation House, 125 Kingsway, London WC2B 6NH
Ffôn: +44 (0) 20 7276 8424
Ffacs: +44 (0) 20 7276 8447
E-bost: david.millis@foodstandards.gsi.gov.uk

Atodiad – Cyfarwyddiadau gorfodi

Caiff gofynion Rheoliad 882/2004 eu hadlewyrchu mewn cyfarwyddiadau gorfodi penodol a ddefnyddir gan awdurdodau gorfodi penodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Codau Ymarfer Statudol ar gyfer gorfodi cyfraith fwyd ac Arweiniad Ymarfer cysylltiedig ar gyfer awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd porthladdoedd ym Mhrydain Fawr, a chynghorau dosbarth yng Ngogledd Iwerddon (mae'r rhain yn ymgorffori arweiniad ar reolaethau bwyd sydd wedi ei fewnforio);

  Mae'r rhain ar gael ar Borth Gorfodi gwefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd trwy ddilyn y dolenni canlynol yn:

  http://www.food.gov.uk/enforcement/foodlaw/foodlawcop/copengland

  http://www.food.gov.uk/enforcement/foodlaw/foodlawcop/copni

  http://www.food.gov.uk/enforcement/foodlaw/foodlawcop/copscotland

  http://www.food.gov.uk/enforcement/foodlaw/foodlawcop/copwales

- Pecyn Adnoddau Rheoli Bwyd sydd wedi ei Fewnforio Awdurdodau Lleol

  Mae hwn ar gael ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn

  http://www.food.gov.uk/foodindustry/imports/enforce_authorities/resourcepack

- Cod Ymarfer ar Orfodi Cyfraith Bwydydd Anifeiliaid ym Mhrydain Fawr, ac Arweiniad Gorfodi Cyfraith Porthiant Gogledd Iwerddon

  Mae'r rhain ar gael ar Borth Gorfodi gwefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd trwy ddilyn y dolenni yn:

  http://www.food.gov.uk/enforment/foodlaw/feedlawcop/

  http://www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/feedlawguideni.pdf

- Cytundeb Fframwaith ar Orfodi Cyfraith Fwyd Awdurdodau Lleol

  Mae hwn ar gael ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn:

  http://www.food.gov.uk/enforcement/foodlaw/frameagree/

- Llawlyfr Man Archwilio ar y Ffin – gwiriadau milfeddygol ar fewnforion porthiant a bwyd sy'n dod o anifeiliaid o drydydd gwledydd;

  Mae hwn ar gael ar wefan Defra yn:

  http://www.defra.gov.uk/animalh/int-trde/imports/bips/pdf/bipmanual.pdf

- Llawlyfr y Gwasanaeth Hylendid Cig ar gyfer Rheolaethau Swyddogol a Llawlyfr Gwasanaeth Milfeddygol DARD o Reolaethau Swyddogol

  Mae hwn ar gael ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn

  http://www.food.gov.uk/foodindustry/meat/mhservice/mhsmanual2006/

- Cyfarwyddiadau Gweithredol Iechyd Anifeiliaid (Hylendid Llaeth) (yn cynnwys elfen gyfatebol DARD)

  Mae hwn ar gael ar wefan Defra yn:

http://www.defra.gov.uk/animalhealth/publications/Dairy/DHIProcedures.pdf